

# Crynodeb Gweithredol: Model Gweithredu Targed ar gyfer Dyfodol Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr

Bydd y [Model Gweithredu Targed](#) yn sefydlu gwasanaeth prawf cryfach sy'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel, yn cefnogi dioddefwyr trosedd ac yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n gwneud i bobl droseddu, sy'n fater cymhleth yn aml iawn. Bydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu System Cyfiawnder Troseddol gadarn sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Bydd ein model newydd yn uno darpariaeth gwasanaeth prawf o dan un sefydliad, sy'n defnyddio arferion gorau ac yn manteisio ar arloesedd dulliau gweithredu presennol y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Rydym yn buddsoddi £155 miliwn ychwanegol y flwyddyn yn y gwasanaeth prawf unedig, er mwyn i ni allu cyflwyno dedfrydau cymunedol effeithiol sy'n cynnig opsiwn credadwy yn lle carchar, ynghyd â'r cymorth adsefydlu priodol i alluogi'r rheini sy'n troseddu i wneud newidiadau cadarnhaol a pharhaol i'w bywyd.

**Os bydd y sefyllfa mewn cyflwr sefydlog, bydd ein buddsoddiad yn cefnogi'r gwelliannau canlynol<sup>1</sup>:**

- **Rheoli dedfrydau:** bydd cynnydd amcangyfrifedig o £55 miliwn yn y gwariant blynyddol yn helpu i recriwtio Ymarferwyr Prawf ychwanegol, i wella asesiadau risg ac anghenion i ddiogelu'r cyhoedd, ac i sicrhau goruchwyliaeth fwy cyson i helpu i leihau aildroseddu.

- **Ymyriadau:** bydd amcangyfrif o £24 miliwn ychwanegol o gyllid blynyddol yn ei gwneud hi'n bosibl i gynyddu nifer ac ansawdd y lleoliadau Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Ochr yn ochr â mynd ati'n well i dargedu ymyriadau, bydd hyn yn cynyddu'r cyfraddau cwblhau ac yn sicrhau canlyniadau gwell.
- **Gwasanaethau adsefydlu:** bydd amcangyfrif o £66 miliwn ychwanegol o gyllid blynyddol yn galluogi'r gwasanaeth prawf i gomisiynu ystod ehangach o wasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yn rhanbarthol gan sefydliadau arbenigol. Bydd hyn yn golygu bod modd darparu gwasanaethau y gellir eu teilwra i ymateb i gefndiroedd ac anghenion amrywiol unigolion, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid lleol, gan gynnwys mudiadau yn y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau.

<sup>1</sup> Ffigurau enghreifftiol yw'r rhain, sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon cyfredol gorau o'r gwariant ychwanegol yn 2024/25 (cyflwr sefydlog) o'i gymharu â'r llinell sylfaen bresennol (2019/20). Bydd y blaenoriaethau gwariant, y dyraniadau a'r ffigurau enghreifftiol yn cael eu hadolygu'n gyson ac yn amodol ar adolygiadau gwariant yn y dyfodol. Nid ydynt yn ystyried effaith swyddogion heddlu ychwanegol, nac yn cynnwys unrhyw gostau pontio gweddilliol (untro) ar gyfer 2024/25. Nid yw'r ffigurau a ddyfynnwyd yn dod i £155m, oherwydd rydym yn rhagweld y bydd arbedion effeithlonrwydd gweithredol yn cael eu hailfuddsoddi yn y system i dalu am rywfaint o'r gwariant ychwanegol.

- **Ailsefydlu:** bydd cynnydd amcangyfrifedig o £5 miliwn yn y gwariant blynyddol yn helpu i gynnig cefnogaeth well a mwy cyson cyn ac ar ôl rhyddhau, er mwyn rhoi'r cyfle gorau i bobl allu ailymuno â'r gymuned yn llwyddiannus. Bydd hefyd yn arwain at greu 'swyddogaethau dedfryd fer' ym mhob un o'r 12 rhanbarth prawf, er mwyn helpu i darfu cyn lleied â phosibl a chynnal gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd wedi cael dedfryd fer o garchar.
- **Llys:** amcangyfrif o £8 miliwn o gynnydd yn y cyllid blynyddol ar gyfer timau llys i gryfhau effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf yn y llys, gan gynnwys gwella'r defnydd o adroddiadau cyn dedfrydu a'u hansawdd er mwyn cefnogi dedfrydau mwy effeithiol a chanlyniadau gwell.
- **Dioddefwyr:** amcangyfrif o £3 miliwn ychwanegol o wariant blynyddol er mwyn cynnig gwell cefnogaeth i ddiodefwyr trosedd. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gefnogi diodefwyr stelcian ac aflonyddu, a gwell proses 'optio i mewn' i sicrhau bod diodefwyr yn gallu cael eu cynnwys eto yn y broses ar adegau allweddol yn y ddedfryd.
- **Dysgu a datblygu:** bydd oddeutu £20 miliwn o wariant blynyddol ychwanegol yn cefnogi gwell rhaglenni dysgu a datblygu ar gyfer staff prawf. Mae hyn yn cydnabod bod ein pobl yn rhan annatod o'r broses o ddiwygio'r gwasanaeth prawf yn llwyddiannus – mae'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu yn newid bywydau ac yn cadw'r cyhoedd yn ddiogel, ac mae angen i ni fuddsoddi ynddynt i gefnogi hyn ac i sicrhau bod y gwasanaeth prawf newydd yn lle gwerth chweil i weithio.

Mae ein model yn seiliedig ar egwyddorion Strategaeth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i alluogi ein pobl i wneud eu gorau, i drawsnewid y ddarpariaeth drwy bartneriaethau, i hyrwyddo diwylliant agored o ddysgu ac i foderneiddio ein hystadau a'n technoleg.


Ers cyhoeddi fersiwn ddrafft ein Model Gweithredu Targed ym mis Mawrth 2020, mae pandemig COVID-19 wedi arwain at heriau sylweddol o ran darparu gwasanaethau prawf. Mae staff prawf bellach yn gweithio mewn ffyrdd eithaf gwahanol, sy'n newid ein meddylfryd a'n tybiaethau. Fe wnaeth y pandemig ein sbarduno i addasu ein model i gyflwyno Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig yn y gwasanaeth prawf newydd, er mwyn i ni allu rhoi'r gwasanaeth prawf ar sylfaen fwy sefydlog, cryfhau ein prosesau gweithredol, a bwrw ymlaen yn syth o'r broses adfer i'r broses ddiwygio.

Mae ein hymateb i'r pandemig hefyd yn ein galluogi i ddysgu o'r dulliau cyflawni amgen hynny yr ydym wedi gorfod eu mabwysiadu, ac i sicrhau bod y model newydd yn adlewyrchu'r rheini sydd wedi gweithio'n dda. Gan ein bod ni'n dal i werthuso rhai o'r ffyrdd newydd hyn o weithio, bydd angen i ni fod yn hyblyg, ac yn barod i ystyried newidiadau pellach i'r model gweithredu yng ngoleuni ein profiadau ar y cyd. Rydym ni eisiau bod yn sefydliad agored sy'n dysgu, ac sy'n awyddus i gynnwys tystiolaeth ac adborth gan randdeiliaid (gan gynnwys staff a'r bobl hynny sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf) ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Mae'r Model Gweithredu Targed yn rhoi manylion y gwasanaeth prawf unedig newydd y byddwn ni'n dechrau ei weithredu ym mis Mehefin 2021. Mae'n canolbwyntio ar y nodweddion allweddol canlynol:



**Strwythurau rhanbarthol newydd ar gyfer arweinyddiaeth yn y gwasanaeth prawf** sy'n ei gwneud yn bosibl i sicrhau mwy o atebolrwydd ar lefel leol, gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol unigolion yn well



**Buddsoddi yn ein gweithlu** i gefnogi datblygiad parhaus, i ddenu a chadw talent, i greu gweithlu amrywiol, i feithrin arweinwyr hyderus ac i hybu lles.



**Gwella'r broses o Reoli Dedfrydau** er mwyn annog mwy o bwyslais ar oruchwyliaeth effeithiol i helpu i ddiogelu'r cyhoedd, a hybu adsefydlu lle bynnag y bo modd.



**Gwell ymyriadau** sy'n ymateb i anghenion penodol unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth Gwaith Di-dâl a Rhaglenni Achrededig, cyflwyno Ymyriadau Strwythuredig a sicrhau arbenigedd sectorau eraill wrth ddarparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu.



**Moderneiddio ein hystad a'n technoleg** fel bod ein mannau ffisegol yn creu amgylcheddau gwaith cadarnhaol a'n bod yn lleihau dyblygu yn ein systemau, gan greu arbedion effeithlonrwydd a gwella'r broses o gofnodi a dadansoddi data er mwyn hwyluso proses fwy effeithiol o wneud penderfyniadau.

# Strwythurau rhanbarthol newydd ar gyfer arweinyddiaeth yn y gwasanaeth prawf

I weithredu ein model newydd, rydym yn dibynnu ar arweinyddiaeth strategol a gwaith partneriaeth mwy effeithiol, a fydd yn cael ei arwain ar lefel ranbarthol gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol, gyda chefnogaeth uwch dimau arwain. I gefnogi'r dull hwn o weithredu, rydym wedi cyflwyno rhanbarthau

daearyddol diwygiedig. Bydd y gwasanaeth prawf newydd yn cael ei rannu – **Cymru, ac 11 rhanbarth yn Lloegr** – gyda ffiniau'n cyd-fynd â ffiniau'r heddlu a'r awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn diwygio'r **model cynllunio busnes** er mwyn cael proses fwy strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**Bydd cyfrifoldebau cyffredinol Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn cynnwys y canlynol:**

**Gosod a goruchwyllo'r broses o weithredu strategaeth ranbarthol** sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a rhai lleol, yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth yn effeithiol, ac yn sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal.

**Sicrhau un llais dylanwadol ar ran y gwasanaeth prawf** yn y rhanbarth – eirioli ar ran holl ddarparwyr y gwasanaeth prawf yn y rhanbarth, a meithrin hyder yn allanol.



**Goruchwyllo contractau rhanbarthol** i sicrhau canlyniadau o ran gwasanaeth a gwerth am arian.

**Hybu gwaith partneriaeth effeithiol**, llywio darpariaeth integredig a sicrhau aliniad strategol ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Bydd diwygiadau i'n fframwaith perfformiad yn rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth prawf newydd, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar dair elfen allweddol:

- **Cael yr hanfodion yn iawn:** dal y gwasanaeth prawf newydd yn atebol am ei ddyletswyddau craidd.
- **Sicrhau ansawdd ein darpariaeth**, gan gynnwys mesurau ansawdd newydd, rhoi mwy o bwyslais ar fonitro cydraddoldeb, a chryfhau'r pwys rydym ni'n ei roi ar adborth gan bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf.
- **Canolbwyntio ar ganlyniadau** y mae tystiolaeth yn dangos sy'n helpu i leihau'r achosion o aildroseddu.

**Crynodeb Gweithredol: Model Gweithredu Targed ar gyfer Dyfodol Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr**

# Buddsoddi yn ein gweithlu

Mae ein staff yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaeth prawf. I gydnabod hyn, mae'n hollbwysig ein bod ni'n buddsoddi yn y sgiliau, y galluoedd a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith i'r safon

uchaf. Ym mis Mehefin 2020 roeddem wedi cyhoeddi ein Strategaeth ar gyfer y Gweithlu Prawf, ac mae'n hollbwysig ei bod yn cael ei rhoi ar waith er mwyn i'r model unedig newydd gael ei gyflwyno'n llwyddiannus.


## Bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

**Hyrwyddo lles** pawb, gan sicrhau bod y strwythurau a'r anogaeth briodol ar gael i gefnogi ein gweithlu, er mwyn cynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

**Denu a chadw pobl dalentog** drwy wneud y gwasanaeth prawf newydd yn lle gwerthfawr i weithio, ac sy'n rhoi llawer o foddhad.

### Cefnogi a datblygu pobl

drwy ddarparu adnoddau dysgu gwerthfawr sy'n galluogi datblygiad proffesiynol parhaus, a phrosesau gwell i reoli perfformiad.



### Creu gweithlu mwy amrywiol

Ile mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, gan greu diwylliant unedig sy'n cael ei lywio gan bwrpas ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Meithrin arweinwyr

**hyderus** sy'n ysbrydoli ac yn grymuso eraill, gan gydnabod pwysigrwydd dangos esiampl o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith, a rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu a dangos sgiliau arwain.

Yn y tymor byr, rydym yn cydnabod yr heriau a fydd yn wynebu ein pobl yn sgil newidiadau. O'r herwydd, rydym yn ystyried profiad y rheini sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Yn benodol, sut gallwn ni gynnig sicrwydd ynghylch swyddi pobl yn y dyfodol a sicrhau bod y **cyfnod pontio mor hwylus â phosibl** i bawb.

Rydym wedi creu swyddogaeth benodol ar gyfer rheoli newid. Bydd pwyslais y swyddogaeth yn cynnwys cyfleu **gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol**; disgrifio **sut bydd y newidiadau'n edrych ac yn teimlo** a **sicrhau bod gan bawb lais** yn y broses o siapio a dylanwadu ar ein sefydliad yn y dyfodol. Drwy wneud hyn, byddwn ni'n dechrau **creu diwylliant ar y cyd, newydd**.

# Gwella'r ddarpariaeth Rheoli Dedfrydau

Mae newid i fod yn wasanaeth prawf unedig, newydd yn rhoi cyfle i un gwasanaeth cyson ddarparu gwasanaeth **Rheoli Dedfrydau o un pen i'r llall**, sy'n defnyddio'r arferion gorau cyfredol ac yn adeiladu ar hynny ar sail tystiolaeth. Rydym wedi rhannu hyn yn dair elfen eang, sef **cyngor i'r llys**, **Rheoli Dedfrydau** ac **ailsefydlu**.

# Cyngor i'r llys

Mae'r newidiadau i'r elfen **cyngor i'r llys** yn canolbwyntio ar y gwasanaeth prawf yn manteisio i'r eithaf ar ei ddylanwad yn y llys er mwyn iddo fod yn llais dibynadwy ar gyfer dedfrydwyr, a'r rheini sy'n rhan o achos llys. Bydd hyn yn helpu'r llys i osod amodau priodol sy'n diogelu'r cyhoedd a dioddefwyr, yn ogystal ag ymateb i anghenion unigolyn er mwyn helpu i lywio proses adsefydlu lwyddiannus.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r canlynol:

**Datblygu'r ffordd rydym yn cydweithio â dedfrydwyr, a lleoli ymarferwyr yn effeithiol** er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau.



**Gwell darpariaeth hyfforddiant ac amgylchedd gweithredu i'n staff yn y llys** er mwyn iddyn nhw allu darparu cyngor o safon uchel.

**Cynyddu'r defnydd o adroddiadau cyn dedfrydu a'u hansawdd**, er mwyn hwyluso dedfrydau mwy ymatebol a all gyfrannu at broses well o gynllunio a rheoli dedfrydau. Bydd hyn yn cynnwys targedu menywod a'r rheini o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, y gwyddom eu bod yn anghymesur yn fwy tebygol o gael dedfryd o garchar.

# Rheoli Dedfrydau


Mae tystiolaeth sylweddol o'r pŵer sydd gan Ymarferwyr Prawf, drwy eu rôl oruchwylio, i helpu unigolion i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywyd. Felly, rydym ni'n canolbwyntio ar helpu Ymarferwyr Prawf

i ddefnyddio'r sgiliau, y gweithgareddau a'r ymddygiad allweddol priodol i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol i'r rheini sydd o dan ein goruchwyliaeth, dioddefwyr a'r cyhoedd:

Asesu a rheoli risg yn well er mwyn sicrhau **bod y cyhoedd yn cael eu diogelu**.

**Llwyth achosion mwy cytbwys** er mwyn i Ymarferwyr Prawf allu cyflawni pob elfen o'u rôl.

**Rheoli a chyflwyno'r cynllun dedfrydu mewn ffordd gyson**, gan gynnwys unigolion yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau dedfrydu er mwyn eu hannog i ymrwymo i'r cynllun, a darparu'r ymyriadau iawn ar yr adeg iawn.



**Proses well o ddyrannu achosion** sy'n neilltuo unigolyn i Ymarferydd Prawf sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i reoli'r achos.

**Mynd ati i wneud gwaith newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth** ac sy'n ategu ymyriadau adsefydlu gan ddarparwyr arbenigol, ac yn canolbwyntio ar gryfhau'r berthynas ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio er mwyn eu hysgogi i newid eu hymddygiad a'u helpu i wneud hynny.

**Dull integredig** sy'n galluogi Ymarferwyr Prawf i gydweithio i gyflawni newid, ac sy'n rhoi mwy o bwyslais ar anghenion a gofynion penodol rhai carfannau.

# Ailsefydlu

Rydym am roi gwell cyfleoedd i bobl ailymuno â chymdeithas. Byddwn yn edrych o'r newydd ar y pwyslais rydym ni'n ei roi ar ailsefydlu, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o wasanaethau drwy'r giât er

mwyn i ni gryfhau'r gefnogaeth wrth adael y carchar a dod yn rhan o'r gymuned, gan gydnabod yr angen am ddull gwahanol o weithredu ar gyfer menywod ac ystyried anghenion penodol unigolion.

## Bydd hyn yn cynnwys:

**Gwell cefnogaeth cyn rhyddhau** sydd wedi'i chydlynu'n agosach â charchardai, ac sy'n darparu dull mwy cyson sy'n diwallu anghenion ailsefydlu unigolyn.



Creu **swyddogaethau dedfryd fer** er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion y rheini sydd wedi cael dedfryd fer, a lleihau lefelau uchel o aildroseddu yn y grŵp hwn.

**Defnyddio'r Fframwaith Dynamig** i ddarparu gwasanaethau ailsefydlu lleol a pherthnasol sy'n ategu'r ddarpariaeth graidd mewn carchardai.



# Gwell ymyriadau

Ym mhob un o'r rhanbarthau newydd, bydd Tîm Ymyriadau yn gyfrifol am ddarparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig (gan gynnwys darparu Rhaglenni Achrededig mewn carchardai yng Nghymru) ac Ymyriadau Strwythuredig sydd wedi cael eu cymeradwyo.

Bydd y broses o **wella ansawdd y ddarpariaeth Gwaith Di-dâl** yn hybu'r defnydd o orchmynion cymunedol fel opsiwn cadarn yn lle carcharu, ac yn gwella'r ymgysylltu yn y broses ar gyfer y rheini sy'n gwneud Gwaith Di-dâl.

Bydd pwyslais arbennig ar sicrhau digon o **leoliadau o safon uchel sy'n gwella'r cyfleoedd addysgol a hyfforddiant sydd ar gael.**

**Rhaglenni Achrededig** fydd yr ymyriad o ddewis o hyd pan fydd hynny'n briodol, a bydd y pwyslais ar archwiliadau mwy effeithiol ar gyfer addasrwydd a chymhwysedd yn helpu i'w **gwneud yn fwy effeithiol.**

Byddwn ni'n **cyflwyno Ymyriadau Strwythuredig fel model cyflawni cyson ar gyfer unigolion risg is** sydd ag anghenion o ran Agweddau, Meddwl ac Ymddygiad; Cam-drin Domestig a Rheoli Emosiynau.

**Ar gyfer pob ymyriad a gyflwynir yn uniongyrchol, byddwn ni'n rhoi mwy o bwyslais ar y canlynol:**

Sicrhau bod **lleoliadau/ rhaglenni ar gael yn yr ardal leol** i annog presenoldeb ac, yn achos Gwaith Di-dâl, sicrhau bod modd gwneud gwaith gwneud iawn a'r gymuned yn yr ardal leol.

**Adolygiadau mwy rheolaidd o achosion gweithredol** i sicrhau cyfraddau cwblhau uwch a bod pethau'n cael eu cywiro'n brydlon os bydd angen.



**Gwella'r broses asesu a chynefino** i sicrhau lleoliadau ac ymyriadau mwy perthnasol ac amserol sy'n fwy defnyddiol i unigolion.

**Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff sy'n darparu ymyriadau** i helpu i wella canlyniadau adsefydlu.

Rydym yn cydnabod bod lle o hyd i gael arbenigedd y tu allan i'n sefydliad yn darparu rhai gwasanaethau prawf, ac felly byddwn ni'n **gweithredu Fframwaith Dynamig** a fydd yn gweithio fel system **i ddod o hyd i ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu ar lefel ranbarthol a lleol.**

Bydd hyn yn rhoi lle amlwg i'r sector gwirfoddol gymryd rhan yn y model unedig newydd, ac i fudiadau arbenigol o sectorau eraill hefyd, a bydd yn galluogi'r canlynol:

- **Mynediad at gyfres o ymyriadau** sy'n mynd i'r afael ag anghenion sydd naill ai â chysylltiad cryf ag aildroseddu, neu sy'n darparu'r sefydlogiad sydd ei angen ar unigolion.
- **Cymorth wedi'i deilwra** sy'n cydnabod cefndiroedd ac anghenion amrywiol unigolion.
- **Cydweithio â phartneriaid lleol** i helpu i sicrhau bod unigolion yn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd perthnasol sydd ar gael.

Byddwn hefyd yn gweithredu **Cronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi**. Bydd yn darparu swm bach o arian ar gyfer pob rhanbarth i helpu i ddefnyddio buddsoddiad mewn gwasanaethau ehangach a allai fod yn help o ran aildroseddu, ond nad ydynt yn cyflawni gorchymyn y llys yn uniongyrchol.


# Moderneiddio ein hystad a'n technoleg



Byddwn yn buddsoddi mewn **ystad sy'n fodern, yn ddiogel ac yn galluogi** ar gyfer staff a phobl sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf. Byddwn yn creu amgylcheddau gwaith mwy hyblyg a hwylus, a fydd yn cael eu cynnal i safon uchel. Mae hyn yn cynnwys cydnabod manteision cydleoli gyda phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder troseddol, a chyfyngu ar amser teithio i'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf.



Mae datblygu **golwg ddi-dor ar daith unigolyn drwy'r system brawf** yn rhan ganolog o'n strategaeth ddigidol a data. Drwy wneud hyn gallwn gadw golwg ar brofiadau pobl yn well ac, ar yr un pryd, meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio.



Bydd ein dull gweithredu'n canolbwyntio ar **gael y pethau craidd yn iawn**, gwella prosesau busnes, cael gwared ar ddyblygu ac yna **uwchraddio ein systemau**. Yn sgil y symleiddio yma, bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu canolbwyntio ar bethau lle gallant ychwanegu gwerth gwirioneddol, yn hytrach nag ar dasgau gweinyddol. Byddwn hefyd yn ceisio **darparu systemau y gall pobl sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf eu defnyddio i ddeall eu cynlluniau dedfrydu'n well, a chymryd mwy o ran ynddynt**, er mwyn helpu i wella canlyniadau adsefydlu.



Byddwn ni'n manteisio ar y cyfle hwn i **drawsnewid y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau** mewn gwaith prawf, gan **gasglu gwell data** a dysgu o'r hyn y mae'r data yma'n ei ddweud wrthym ni, a gwneud penderfyniadau doeth drwy ddefnyddio **arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth**. Byddwn ni'n sicrhau bod **gwybodaeth am ddata'n cael ei chynnwys** yn arferion bob dydd staff y gwasanaeth prawf, a'i bod yn cael ei rhannu pan fo'n briodol â chydweithwyr mewn carchardai yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yn ogystal â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol yn ehangach.

